Prysg
Gwasanaethau Iaith
Language Services

Mae Prysg yn chwilio am gyfieithwyr newydd. Fel un o brif gwmnïau cyfieithu Cymru, mae gennym ystod eang o gleientiaid a byddwch yn gweithio gyda thîm profiadol iawn, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn y maes.

Uwch-gyfieithwyr
£29,000 - £38,000 + buddiannau

Cyfieithwyr
£23,000 - £27,500 + buddiannau

Cyfieithwyr dan hyfforddiant
£21,500 + buddiannau

Dylai fod gan y sawl sy'n gwneud cais am swydd uwch-gyfieithydd ddwy flynedd o brofiad o leiaf o gyfieithu a golygu, a dylai fod gan y sawl sy'n gwneud cais am swydd cyfieithydd flwyddyn o brofiad o leiaf o gyfieithu. Gellir gweithio yn y swyddfa ac/neu o bell. Ystyrir ceisiadau i weithio'n rhan-amser.

I gael ffurflen gais a swydd-ddisgrifiad, e-bostiwch post@prysg.cymru gan nodi'r swydd y mae gennych ddiddordeb ynddi.

Dyddiad cau: 9am ddydd Mawrth 7 Mehefin 2022.

Cynhelir y profion/cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 13 Mehefin 2022.